Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

## Cod Ymarfer ar Sicrhau Ansawdd a Rheoli Perfformiad, Uwchgyfeirio Pryderon a Chau Gwasanaethau, mewn perthynas â Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig

Mawrth 2026

Fersiwn 1

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG53644, ISBN digidol 978-1-80633-998-3
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

Cod Ymarfer ar Sicrhau Ansawdd a Rheoli Perfformiad, Uwchgyfeirio Pryderon a Chau Gwasanaethau, mewn perthynas â Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig

Dyroddir y Cod Ymarfer hwn o dan adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae hefyd yn ganllawiau o dan adran 169 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac adran 2 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

Er mwyn sicrhau bod gan y Cod rym cymaradwy mewn perthynas ag awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG, bydd Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru o dan adrannau 12 a 19 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 i arfer eu swyddogaethau perthnasol yn unol â'r gofynion yn y Cod hwn.

Mae'r Cod hwn yn disodli'r canllawiau statudol *Escalating Concerns With, and Closures of Care Homes Providing Services for Adults* a ddyroddwyd yn 2009.

## Cynnwys


**Pennod 1: Rhaglith** ........ 1

**Pennod 2: Diben** ........ 5

**Pennod 3: Cyffredinol** ........ 6

**Pennod 4: Sicrhau Ansawdd a Rheoli Perfformiad Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig** ........ 9

**Pennod 5: Uwchgyfeirio Pryderon mewn Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig** ........ 13

**Pennod 6: Datgomisiynu** ........ 17

**Pennod 7: Cau Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig** ........ 19

**Atodiad A - Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig - Siart Lif Sicrwydd Ansawdd a Rheoli Perfformiad** ........ 22

**Atodiad B - Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig - Siart Lif Uwchgyfeirio Pryderon** ........ 25

**Atodiad C – Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig - Siart Lif Datgomisiynu Gwasanaeth** ........ 26

**Atodiad D – Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig - Siart Lif Cau Gwasanaeth** ........ 27

**Geirfa** ........ 33

## Pennod 1: Rhaglith

Dyroddir y Cod Ymarfer hwn o dan adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('Deddf 2014'). Mae hefyd yn ganllawiau o dan adran 169 o Ddeddf 2014 ac adran 2 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ('Deddf 2006').

1.1 Daw'r Cod Ymarfer hwn i rym ar 31 Mawrth 2026 (sef y dyddiad a benodwyd yn y gorchymyn diwrnod penodedig) ac mae'n disodli'r canllawiau statudol *Escalating Concerns With, and Closures of Care Homes Providing Services for Adults* a ddyroddwyd yn 2009 ('Canllawiau 2009').

1.2 Pan fo cartref gofal i oedolion yn ddarostyngedig i'r gweithdrefnau rheoli uwchgyfeirio pryderon yng Nghanllawiau 2009 hyd at a chan gynnwys 31 Mawrth 2026, caiff asiantaethau statudol perthnasol barhau i gymhwyso a dilyn y gweithdrefnau yng Nghanllawiau 2009 ar ôl i'r Cod Ymarfer hwn ddod i rym hyd nes naill ai –

(a) y bydd y cartref gofal dan sylw yn cau; neu

(b) y gwneir penderfyniad i dynnu'r gwasanaeth o'r gweithdrefnau uwchgyfeirio pryderon a nodir yng Nghanllawiau 2009.

1.3 Os yw paragraff 1.2(b) yn gymwys ond ei bod yn briodol bod Comisiynwyr yn parhau i reoli perfformiad y gwasanaeth, rhaid i'r asiantaethau statudol perthnasol gydymffurfio â'r Cod hwn.

1.4 Gellir dod o hyd i Ddeddf 2014 yn: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

1.5 Gellir dod o hyd i Ddeddf 2006 yn: Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

1.6 Wrth arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, rhaid i awdurdodau lleol weithredu'n unol â'r gofynion yn y Cod hwn. Nid yw adran 147 (Gwyro oddi wrth ofynion mewn codau) o Ddeddf 2014 yn gymwys i unrhyw ofynion yn y Cod hwn. Yn ogystal, rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a nodir yn y Cod hwn.

1.7 Er mwyn sicrhau bod gan y Cod rym cymaradwy mewn perthynas â Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG, bydd Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG o dan adrannau 12 a 19 o Ddeddf 2006 i arfer eu swyddogaethau perthnasol yn unol â'r gofynion yn y Cod hwn.

1.8 Dylid darllen y Cod hwn ar y cyd â'r holl Godau Ymarfer a chanllawiau statudol perthnasol a ddyroddwyd o dan Ddeddf 2014, ac yn benodol:

- *Y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yng Nghymru: Cod Ymarfer*,
- *Cod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol)*,
- *Cod Ymarfer Rhan 3 (Asesu Anghenion Unigolion)*,
- *Cod Ymarfer Rhan 4 (Diwallu Anghenion)*,
- *Cod Ymarfer Rhan 4 a 5 (Codi Ffioedd ac Asesiadau Ariannol)*,
- *Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya)*,
- *Cod Ymarfer Rhan 8 ar Rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol)*,
- *Codau a Chanllawiau: Canllawiau Statudol Rhan 9 (Trefniadau Partneriaeth)*,
- Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 1 - Cyflwyniad a Throsolwg.

1.9 At ddibenion y Cod hwn, mae i'r term 'gofal a chymorth' yr un ystyr ag sydd iddo yn adran 3 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ('Deddf 2016'). Mae'r Cod hwn yn ymwneud â'r gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig a gomisiynir a ganlyn sydd wedi'u cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (sy'n gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru) o dan Ddeddf 2016:

- gwasanaethau cartrefi gofal (ar gyfer oedolion a phlant, gan gynnwys y rhai sy'n darparu gofal nyrsio),
- gwasanaethau llety diogel,
- gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd,
- gwasanaethau maethu,
- gwasanaethau mabwysiadu,
- gwasanaethau lleoli oedolion,
- gwasanaethau eirioli,
- gwasanaethau cymorth cartref, a
- gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig.[1]

1.10 Mae'r Cod hwn yn cynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni eu rôl a'u cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf 2014.

1.11 Mae'r Cod hwn yn cynorthwyo Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG i gyflawni eu rôl a'u cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf 2006. Mae'n gymwys i wasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig a gomisiynir drwy Ofal Iechyd Parhaus y GIG a/neu Ofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG, cymorth cartref, a phan fo'r GIG yn rheoli cartrefi gofal sy'n darparu gofal nyrsio.

1.12 **At ddibenion y Cod hwn, cyfeirir at awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG fel 'Comisiynwyr'**. Mae'r term hwn yn cynnwys unrhyw dimau ac unedau comisiynu y mae gweithgarwch comisiynu wedi'i ddirprwyo iddynt.

[1] Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig) (Cymru) 2023.

1.13 Mae’r Cod hwn hefyd yn gymwys i wasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig a gomisiynir drwy drefniadau cydweithredol, ar y cyd neu integredig (awdurdodau lleol a’r GIG), gan gynnwys unrhyw drefniadau partneriaeth ffurfiol gan gynnwys trefniadau rhwng cyrff y GIG ac awdurdodau lleol o dan adran 33 o Ddeddf 2006 a gwasanaethau rhanbarthol a ddatblygir drwy drefniadau ffurfiol o dan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

1.14 Dylid darllen y Cod hwn ar y cyd â’r *Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yng Nghymru: Cod Ymarfer* (‘y Fframwaith Cenedlaethol’) a ddaeth i rym ar 1 Medi 2024 (ac unrhyw fersiynau dilynol). Mae’r Fframwaith Cenedlaethol yn gymwys i weithgarwch comisiynu gwasanaethau gofal a chymorth a gynhelir gan awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau’r GIG yng Nghymru (‘Comisiynwyr’). Mae’n nodi egwyddorion a safonau ar gyfer arferion comisiynu a threfniadau contractio, gan gynnwys gweithdrefnau monitro priodol i alluogi partneriaid statudol i’w sicrhau eu hunain bod cydymffurfiaeth ar waith.

1.15 Ategir y Cod hwn gan adnoddau a thempledi sydd wedi’u darparu ym Mhecyn Cymorth y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yng Nghymru (‘Pecyn Cymorth y Fframwaith Cenedlaethol’)[2].

1.16 **<u>Nid</u> yw’r Cod hwn yn gymwys i’r canlynol:**

- gwasanaethau a ddarperir neu a drefnir gan awdurdod lleol nad ydynt yn cael eu rheoleiddio o dan Ddeddf 2016.
- gwasanaethau iechyd a ddarperir yn uniongyrchol gan y GIG neu a gomisiynir ganddo i ddarparu lleoliadau mewn ysbytai a gwasanaethau gofal sylfaenol (meddygaeth deulu, deintyddiaeth, optometreg, fferylliaeth).
- gofal iechyd (‘*health care*’) fel y’i diffinnir yn adran 17(9) o Ddeddf 2006:

  “*(a) services provided to individuals for or in connection with the prevention, diagnosis or treatment of illness, and*
  *(b) the promotion and protection of public health*”.
- gwasanaethau gofal a chymorth a drefnir gan unigolion drwy daliadau uniongyrchol.

1.17 Mae’r Cod hwn yn cynnwys gwybodaeth am rolau a chyfrifoldebau darparwyr gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig, Arolygiaeth Gofal Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru.

1.18 Gellir defnyddio’r Cod hwn yn ganllawiau arferion da ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig nad ydynt wedi’u comisiynu gan awdurdod lleol, Bwrdd Iechyd Lleol neu ymddiriedolaeth GIG a gwasanaethau gofal a chymorth nad ydynt yn cael eu rheoleiddio a ddarperir ar ran awdurdod lleol gan y trydydd sector a’r sector preifat.

[2] Mae Pecyn Cymorth y Fframwaith Cenedlaethol ar gael drwy blatfform y Gymuned Ymarfer Comisiynu Gofal a Chymorth (y Fframwaith Cenedlaethol) yma. Bydd angen i ddefnyddwyr gael cyfrif er mwyn gallu defnyddio Pecyn Cymorth y Fframwaith Cenedlaethol.

*Eiriolaeth*

1.19 Nod Deddf 2014 yw ymwreiddio diwylliant ac ymagwedd tuag at ofal cymdeithasol, lle y mae'r unigolyn sydd angen gofal a chymorth yn bartner cyfartal yn ei berthynas â gweithwyr proffesiynol. Mae croeso i unigolion wahodd rhywun o'u dewis i'w cynorthwyo i gymryd rhan lawn a mynegi eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau. Gall ffrindiau, aelodau o deulu neu rwydwaith cymorth ehangach yr unigolyn ddarparu'r cymorth hwn.

1.20 Mae Cod Ymarfer Rhan 10 (Eiriolaeth) yn nodi pan fo'n rhaid i awdurdod lleol, mewn partneriaeth â'r unigolyn, ddod i benderfyniad ynglŷn â sut y gallai eiriolaeth helpu i nodi canlyniadau personol yr unigolyn a'u cyflawni, ynghyd â'r amgylchiadau pan fo'n rhaid i awdurdod lleol drefnu cymorth gan eiriolwr proffesiynol annibynnol. Mae penderfyniadau a wneir gan Gomisiynwyr ynghylch yr angen am eiriolaeth mewn achosion unigol yn rhan annatod o'r camau gweithredu a'r gweithgareddau a ddisgrifir yn y Cod hwn.

*Diogelu*

1.21 Sefydlodd Deddf 2014, a ategwyd gan ganllawiau statudol sef Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 1 - Cyflwyniad a Throsolwg, fframwaith ar gyfer diogelu oedolion a phlant yng Nghymru. Mae'r fframwaith cyfreithiol hwn yn cynnwys dyletswyddau i ymchwilio ac adrodd, y mae rhaid i Gomisiynwyr gydymffurfio â nhw, ochr yn ochr â'u rhwymedigaethau o dan y Cod hwn. Tynnir sylw Comisiynwyr at y Fframwaith Cenedlaethol sy'n pwysleisio'r gofyniad i Gomisiynwyr gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod prosesau ar gyfer comisiynu gwasanaethau gofal a chymorth yn hybu ac yn diogelu llesiant plant ac oedolion sy'n wynebu risg.

*Cydnabyddiaeth*

1.22 Mae'r Cod hwn wedi'i ddatblygu gyda chymorth grŵp rhanddeiliaid o'r sector a phartneriaid eraill, gan gynnwys Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir y Fflint, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Sir Penfro.

## Pennod 2: Diben

2.1 Mae'r Cod hwn, y darpariaethau statudol a'r rheoliadau y mae'n cyfeirio atynt, yn nodi'r gofynion ar gyfer:

(i) awdurdodau lleol, mewn perthynas â'r canlynol:

- Adran 34 o Ddeddf 2014 – ffyrdd y caiff awdurdod lleol ddiwallu anghenion gofal a chymorth.
- Adrannau 35 i 45 o Ddeddf 2014 – dyletswyddau a phwerau a osodir ar awdurdodau lleol i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolion a phlant, ac anghenion cymorth oedolion a phobl ifanc sy'n ofalwyr.
- Adran 189 o Ddeddf 2014 – methiant darparwr a dyletswydd dros dro ar awdurdod lleol.
- Adrannau 190 a 191 o Ddeddf 2014 – methiant darparwr – eithriad i'r ddyletswydd dros dro.
- *Y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yng Nghymru: Cod Ymarfer.*

(ii) Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG, mewn perthynas â'r canlynol:

- Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau a Gyfarwyddir) (Cymru) 2009.
- *Y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yng Nghymru: Cod Ymarfer*.

2.2 Mae'r Cod hwn yn gosod gofynion ar Gomisiynwyr i sicrhau cysondeb ar lefel genedlaethol gan hefyd gefnogi hyblygrwydd a gweithdrefnau lleol mewn perthynas â'r canlynol:

- sicrhau ansawdd a rheoli perfformiad gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig.
- ymdrin â phryderon a gaiff eu huwchgyfeirio o ran gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig.
- datgomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig yn strategol.
- cau gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig.
- rolau a chyfrifoldebau.
- strwythurau, prosesau a chamau gweithredu a argymhellir.

2.3 Rhaid darllen y Cod hwn ar y cyd ag Atodiadau A i D sy'n rhoi rhagor o wybodaeth am strwythurau a phrosesau.

2.4 Dylai comisiynwyr hefyd gyfeirio at yr adnoddau a'r templedi sydd wedi'u cynnwys ym Mhecyn Cymorth y Fframwaith Cenedlaethol.

## Pennod 3: Cyffredinol

3.1 Mae gan **awdurdodau lleol** gyfrifoldeb statudol dros wneud y canlynol:

- sicrhau bod digon o wasanaethau gofal a chymorth i ddiwallu anghenion eu poblogaeth leol.
- comisiynu gwasanaethau gofal a chymorth i ddiwallu anghenion asesedig unigolion.
- gweithredu os digwydd i ddarparwr gwasanaeth fethu â darparu'r llety neu'r gwasanaethau y mae'n eu darparu fel arfer o fewn ardal awdurdod lleol oherwydd methiant busnes, a,
- chyflawni dyletswydd dros dro i ddiwallu anghenion yr oedolion yr oedd y darparwr gwasanaeth yn darparu llety neu wasanaethau ar eu cyfer.

3.2 Mae gan **Fyrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG** gyfrifoldeb statudol dros fodloni'r holl ofynion rhesymol ar gyfer ôl-ofal unigolion yn rhan o'r gwasanaeth iechyd a chânt gomisiynu cymorth, llety cleifion, neu ofal nyrsio.

3.3 Mae gan **Fyrddau Iechyd Lleol** gyfrifoldeb statudol dros wneud y canlynol:

- asesu anghenion iechyd unigolion.
- darparu cynllun gofal, manyleb gwasanaeth a chomisiynu darparwyr gwasanaethau i ddiwallu anghenion yr unigolyn.
- ariannu gofal nyrsio a chomisiynu Gofal Iechyd Parhaus y GIG.

3.4 Mae gan **ddarparwyr gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol** gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig gyfrifoldeb statudol dros gydymffurfio â Deddf 2016 a'r rheoliadau perthnasol[3] a wneir o dan Ddeddf 2016 ('y Rheoliadau'). Mae'r Rheoliadau yn nodi gofynion penodol ar ddarparwyr gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol yn ymwneud ag ansawdd, diogelwch a goruchwylio gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig. Mae'n ofynnol hefyd i ddarparwyr gwasanaethau gymryd camau rhesymol i sicrhau bod y gwasanaeth yn ariannol gynaliadwy at ddiben cyflawni'r nodau a'r amcanion a amlinellir yn y datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth.

3.5 **Arolygiaeth Gofal Cymru** yw rheoleiddiwr annibynnol gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n cofrestru ac yn arolygu gwasanaethau ac yn cymryd camau i

---

[3] Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017.
Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019.
Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019.
Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019.
Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019.
Rheoliadau Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2024.

wella eu hansawdd a'u diogelwch er llesiant pobl Cymru. Pan fo pryderon am wasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig, gall Arolygiaeth Gofal Cymru ddefnyddio ei phwerau gorfodi - er enghraifft i gyfyngu ar nifer y bobl sy'n cael gofal gan wasanaeth, i atal derbyniadau newydd i wasanaeth, neu i ganslo cofrestriad gwasanaeth. Os daw Arolygiaeth Gofal Cymru yn ymwybodol o gynlluniau i gau gwasanaeth yn wirfoddol neu os oes ganddi bryderon am les neu ddiogelwch pobl, yn arbennig pan allai'r pryderon hynny arwain at gau gorfodol, bydd yn hysbysu'r awdurdod lleol y mae'r gwasanaeth wedi'i leoli yn ei ardal. Nid yw Arolygiaeth Gofal Cymru yn comisiynu gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig nac yn ymgymryd â monitro neu adolygu lleoliadau.

3.6 **Gofal Cymdeithasol Cymru** yw rheoleiddiwr y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n gyfrifol am gofrestru a datblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol, yn ogystal â chefnogi ymchwil gofal cymdeithasol a gwelliannau i wasanaethau yng Nghymru. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gyfrifol am osod y safonau ar gyfer y gweithlu gofal a chymorth a bydd yn ymchwilio i bryderon a godir ynghylch personau cofrestredig.

3.7 Mae Rhan 9 o Ddeddf 2016 yn cynnwys darpariaethau i Arolygiaeth Gofal Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru gydweithio a rhannu gwybodaeth â'i gilydd a chydag awdurdodau perthnasol, gan gynnwys awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG, wrth arfer eu swyddogaethau.

3.8 Dylai awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol, ymddiriedolaethau'r GIG, Arolygiaeth Gofal Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, arolygiaethau a rheoleiddwyr eraill, a darparwyr gwasanaethau rannu gwybodaeth mewn modd amserol a chydweithio i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon ynghylch ansawdd a chynaliadwyedd gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig.

3.9 Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Arolygiaeth Gofal Cymru, Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru yn nodi fframwaith i gynnal y berthynas waith rhwng Arolygiaeth Gofal Cymru, Comisiynwyr awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru ac unrhyw dimau neu unedau comisiynu y mae gweithgarwch comisiynu wedi'i ddirprwyo iddynt. Diben y fframwaith yw:

- datblygu cydweithio effeithiol i ddiogelu hawliau a hyrwyddo diogelwch, buddiannau a llesiant plant ac oedolion sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig.
- gwella effeithiolrwydd y Comisiynwyr a'r rheoleiddiwr yn eu gwaith a'u swyddogaethau, sydd ar wahân ond yn gysylltiedig.
- hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ran darparu gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig.

3.10 **Nid yw'r Cod hwn yn disodli dyletswyddau, swyddogaethau na rhwymedigaethau statudol presennol, nac yn effeithio ar eu cymhwyso.**

3.11 Nod y Cod hwn yw sicrhau proses gyson ledled Cymru ar gyfer sicrhau ansawdd a rheoli perfformiad, uwchgyfeirio pryderon, datgomisiynu a chau gwasanaethau, mewn perthynas â gwasanaethau gofal a chymorth

rheoleiddiedig.

3.12 Rhaid i Gomisiynwyr sicrhau eu bod yn gweithredu yn unol â Deddf 2014 a’r Codau Ymarfer atodol. Rhaid iddynt hwyluso dull gweithredu seiliedig ar hawliau sy’n canolbwyntio ar anghenion asesedig a chanlyniadau llesiant unigolion ac sy’n eu galluogi i arfer llais gwirioneddol a rheolaeth wirioneddol.

## Pennod 4: Sicrhau Ansawdd a Rheoli Perfformiad Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig

4.1 Gall awdurdodau lleol fod yn ddarparwyr gwasanaethau ac yn Gomisiynwyr gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig. Mae awdurdodau lleol hefyd yn ymgymryd â chomisiynu cydweithredol, ar y cyd neu integredig gyda Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru. Mae'r Cod ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn nodi'r disgwyliadau o ran ansawdd y gofal a'r cymorth y dylai awdurdodau lleol eu darparu naill ai'n uniongyrchol neu drwy drefniadau contractio.

4.2 Mae Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG yn comisiynu gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig a chânt ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig fel cartrefi gofal sy'n darparu gofal nyrsio, a gwasanaethau cymorth cartref. Cânt ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau a gomisiynir gyrraedd rhai neu'r cyfan o'r safonau a ddisgrifir yn y Fframwaith Ansawdd a Diogelwch: Dysgu a Gwella.


4.3 Mae'r Rheoliadau, sydd wedi'u hategu gan ganllawiau statudol[4], yn nodi'r gofynion rheoleiddio o dan Ddeddf 2016 ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig, ac maent yn cynnwys y gofynion o ran ansawdd a diogelwch. Mae'n ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau fod â threfniadau effeithiol ar waith sy'n cydymffurfio â'r gofynion yn y Rheoliadau ar gyfer cylch parhaus o sicrhau ansawdd ac adolygu ansawdd gofal.

4.4 Mae Canllawiau Statudol y Ddyletswydd Ansawdd (2023) a'r Safonau Ansawdd (2023) ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn disgrifio ffordd o weithio ar draws y system sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i bobl. Mae'r Cod hwn yn ategu dull gweithredu tebyg ar gyfer sicrhau ansawdd gwasanaethau, gan gadarnhau pwysigrwydd sicrhau ansawdd o fewn systemau rheoli ansawdd ehangach, wedi'i gysylltu ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol er mwyn sicrhau diwylliant o ddysgu a gwella parhaus.

---

[4] Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 - Canllawiau Statudol ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal, gwasanaethau cymorth cartref, gwasanaethau llety diogel a gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd.
Canllawiau Statudol a Chod Ymarfer - Gwasanaethau Mabwysiadu.
Canllawiau Statudol - Gwasanaethau Maethu.
Canllawiau Statudol - Gwasanaethau Lleoli Oedolion.
Canllawiau Statudol - Gwasanaethau Eirioli.
Canllawiau Statudol - Gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig.

4.5 Bydd cylch rheoli ansawdd effeithiol yn cynnwys yr holl randdeiliaid perthnasol ac yn cael ei seilio ar ddiwylliannau cadarnhaol sy'n canolbwyntio ar ddysgu, fel y disgrifir yn y darlun isod:




4.6 Rhaid i Gomisiynwyr gynnwys unrhyw ofynion lleol o ran ansawdd a diogelwch mewn dogfennaeth gontractiol (manylebau, atodlenni perfformiad contract a rheoli ansawdd) neu fathau eraill o gytundebau, ac mewn polisïau a gweithdrefnau lleol.

4.7 Rhaid i Gomisiynwyr gydweithio â darparwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill i sicrhau ansawdd y gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig y maent yn eu comisiynu. Dylai ffurf y cytundeb (er enghraifft contract) ddisgrifio'r gweithdrefnau sicrhau ansawdd a rheoli perfformiad lleol, gan gynnwys gweithdrefnau ar gyfer uwchgyfeirio pryderon a'r amgylchiadau a'r gweithdrefnau ar gyfer terfynu contract. Dylai contractau hefyd ddisgrifio hawliau'r partïon sy'n contractio a'r camau unioni ar gyfer anghydfodau, apelau a chyfryngu.

4.8 Mae diwydrwydd dyladwy a sicrhau ansawdd yn elfennau allweddol yn y broses o gomisiynu, contractio a chaffael[5]. Dylai Comisiynwyr eu sicrhau eu hunain ynghylch uniondeb unrhyw gontractwyr neu bartneriaid cyflawni posibl cyn ymrwymo i gytundeb neu gontract, ac ar adegau addas wedi hynny. Ni ddylai Comisiynwyr ddibynnu'n gyfan gwbl ar weithgareddau rheoleiddwyr a dylent egluro eu prosesau diwydrwydd dyladwy a'u trefniadau llywodraethiant gwybodaeth eu hunain wrth ddarpar ddarparwyr gwasanaethau a darparwyr gwasanaethau presennol. Dylai Comisiynwyr hefyd weithio'n rhagweithiol i'w sicrhau eu hunain ynghylch ansawdd y gwasanaethau a gomisiynir yn ogystal â gweithio gyda darparwyr gwasanaethau, lle bo modd, i liniaru risgiau sy'n cronni a lleihau'r angen i gychwyn gweithdrefnau uwchgyfeirio pryderon.

4.9 Dylai Comisiynwyr geisio lleihau dyblygu gwaith o ran y gofynion adrodd ar ddarparwyr gwasanaethau. Caiff Comisiynwyr osod rhwymedigaeth gontractiol ar ddarparwyr gwasanaethau a gomisiynir i rannu gwybodaeth a ddarperir i asiantaethau eraill, pan fo sail resymol dros wneud cais am yr wybodaeth hon.

4.10 Rhaid bod gan Gomisiynwyr brosesau effeithiol ar waith i gasglu, cofnodi ac adolygu adborth gan randdeiliaid (gan gynnwys adborth gan unigolion a'u cynrychiolwyr) ynghylch effaith y gwasanaeth ar lesiant pobl, yn rhan o'r cylch adolygu ansawdd a dysgu parhaus.

4.11 Rhaid i Gomisiynwyr asesu pryderon yn ymwneud ag unrhyw risgiau a achosir i lesiant a diogelwch unigolion, a thriongli pryderon yr adroddir amdanynt â ffynonellau eraill o dystiolaeth ansoddol[6]. Dylai Comisiynwyr nodi achos neu achosion sylfaenol pryderon ac ystyried yr atebolrwydd am unrhyw gamau gwella sy'n ofynnol. Dylai Comisiynwyr rannu â'r darparwr gwasanaeth y dystiolaeth sy'n ymwneud â'r pryderon ac unrhyw asesiad risg sydd wedi'i gynnal cyn unrhyw gyfarfod ffurfiol i drafod y pryderon sydd wedi'u nodi a sut y gellid mynd i'r afael â nhw. Rhaid i Gomisiynwyr ystyried ymateb y darparwr gwasanaeth cyn gwneud unrhyw benderfyniad ynghylch ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr gwasanaeth roi camau gwella ar waith.

4.12 Pan fo'n ofynnol rhoi camau gwella ar waith, rhaid i Gomisiynwyr, yn ddi-oed, nodi'n ysgrifenedig ar gyfer y darparwr gwasanaeth eu pryderon, eu hasesiad o'r risgiau a manylion y mesurau lliniaru gofynnol. Rhaid i hyn gynnwys manylion ynglŷn â sut neu ymhle y mae'r gwasanaeth yn torri gofynion y contract, yn ogystal ag amserlen arfaethedig ar gyfer unioni'r sefyllfa (sy'n gyson â gofynion rheoleiddiol / contractiol).

---

[5] Mae'r *Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yng Nghymru: Cod Ymarfer* yn nodi egwyddorion a safonau ynghylch arferion comisiynu ar gyfer awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru.

[6] Gall tystiolaeth ansoddol gynnwys cofnodion o ganmoliaeth, pryderon a materion, atgyfeiriadau diogelu ac adolygiadau ymarfer, tystiolaeth o ran monitro contractau, adolygiadau o gynlluniau gofal, arolygiadau rheoleiddiol a sgoriau ac adborth gan eiriolwyr neu swyddogion adolygu annibynnol.

4.13 Pan fo digon o dystiolaeth i ddangos diffyg yn ansawdd gofynnol gwasanaeth, rhaid i Gomisiynwyr roi gwybod yn ysgrifenedig i'r darparwr gwasanaeth ymhle y mae'r gwasanaeth yn torri gofynion y contract, a phennu unrhyw gamau gwella neu ddatblygu sydd eu hangen. Rhaid i Gomisiynwyr nodi'n ysgrifenedig ymhle y mae'r gwasanaeth yn methu â chydymffurfio â gofynion y contract. Caiff y Comisiynwyr ofyn i'r darparwr gwasanaeth lunio cynllun gweithredu ar gyfer gwella, i ymateb i feysydd lle nad yw'n cydymffurfio â'r contract. Y darparwr gwasanaeth a ddylai fod yn gyfrifol am y cynllun a'r camau gweithredu arfaethedig. Pan fo gwasanaeth wedi cael hysbysiadau rheoleiddiol gweithredu â blaenoriaeth gan Arolygiaeth Gofal Cymru a bod ganddo hefyd gamau gweithredu cydymffurfio â chontract neu gamau gweithredu gwella gwasanaeth, caniateir un cynllun gweithredu i ymdrin â phob maes.

4.14 Rhaid i Gomisiynwyr weithio gyda rhanddeiliaid eraill i isgyfeirio risgiau, drwy gyflawni unrhyw gamau gwella gofynnol cyn gynted â phosibl.

4.15 Dylai Comisiynwyr roi cymorth ychwanegol i ddarparwyr gwasanaethau, lle bo hynny'n briodol, a chynnal mwy o weithgarwch monitro gwasanaethau yn ystod cyfnodau o reoli ansawdd. Dylid cytuno ar natur ac amserlen unrhyw gymorth ychwanegol ag Unigolyn Cyfrifol a Rheolwr Cofrestredig y gwasanaeth. Rhaid i Gomisiynwyr gadarnhau'n ysgrifenedig unrhyw gamau y byddant yn eu cymryd i hybu gwelliannau, er enghraifft, hyfforddiant a chanllawiau polisi. Dylai Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG helpu darparwyr gwasanaethau pan fo materion o natur glinigol.

4.16 Dylai Comisiynwyr fabwysiadu dull dysgu myfyriol drwy gydol y broses gomisiynu a thrwy gydol eu gweithgarwch rheoli ansawdd. Rhaid i Gomisiynwyr adolygu eu harferion a'u prosesau pan fo gwersi wedi'u dysgu, ac yn rhan o'u cylch dysgu o ran ansawdd, er mwyn sicrhau gwelliant parhaus.

4.17 Nodir enghraifft o siart lif sicrhau ansawdd a gwneud penderfyniadau (ar gyfer gwasanaethau oedolion a phlant) yn Atodiad A.

4.18 Mae templed o gynllun gweithredu ar gyfer gwella wedi'i ddarparu ym Mhecyn Cymorth y Fframwaith Cenedlaethol.

## Pennod 5: Uwchgyfeirio Pryderon mewn Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig

5.1 Mae'r Cod hwn yn rhoi canllawiau ar y meini prawf ar gyfer uwchgyfeirio pryderon yn ogystal â'r strwythur a'r prosesau a ddylai fod ar waith i reoli pryderon sydd wedi'u huwchgyfeirio a gwneud penderfyniadau yn eu cylch. Canolbwyntir ar wella ansawdd y gwasanaeth gofal a chymorth rheoleiddiedig, diogelu unigolion a, lle bo hynny'n bosibl, atal cau neu ddatgomisiynu gwasanaethau lle gellid osgoi hynny.

5.2 Mae uwchgyfeirio pryderon yn digwydd pan fo risgiau neu faterion yn cronni sy'n gysylltiedig ag un neu ragor o'r canlynol:

- cynaliadwyedd y gwasanaeth gofal a chymorth rheoleiddiedig;
- ansawdd a diogelwch y gwasanaeth gofal a chymorth rheoleiddiedig;
- diogelwch a llesiant unigolion.

5.3 Gellir nodi tystiolaeth ynghylch pryderon drwy un neu ragor o lwybrau sicrhau ansawdd neu gan ddarparwr gwasanaeth sy'n rhoi gwybod i'r Comisiynydd neu Gomisiynwyr am heriau ariannol sylweddol neu heriau sylweddol o ran y gweithlu sy'n debygol o effeithio ar weithrediad y gwasanaeth.

5.4 Gall uwchgyfeirio pryderon ddeillio o:

- un mater, cwyn neu ddigwyddiad sy'n nodi risg gwirioneddol, neu risg uchel o niwed;
- methiant parhaus neu ailadroddus (systemig) gwasanaeth i gyrraedd y safonau gofynnol o ran ansawdd a diogelwch.

5.5 Gallai materion neu bryderon fod yn arwydd o fygythiadau i allu gwasanaeth i barhau â'i ddarpariaeth neu i fod yn gynaliadwy, gan gynnwys materion yn ymwneud â'r gweithlu neu solfedd ariannol darparwr gwasanaeth.

5.6 Rhaid bod gan Gomisiynwyr ddigon o dystiolaeth ynghylch pryder neu risg i sbarduno gweithdrefnau uwchgyfeirio pryderon.

5.7 Rhaid i Gomisiynwyr allu dangos eu bod wedi arfer eu swyddogaethau a'u dyletswyddau mewn modd rhesymol a chyson.

5.8 Fel y nodir ym Mhennod 4, dylai ffurf y cytundeb (er enghraifft contract) ddisgrifio'r gweithdrefnau sicrhau ansawdd a rheoli perfformiad lleol, gan gynnwys gweithdrefnau uwchgyfeirio pryderon a'r amgylchiadau a'r gweithdrefnau ar gyfer terfynu contractau. Dylai contractau hefyd ddisgrifio hawliau partïon sy'n contractio a chamau unioni ar gyfer anghydfodau, apelau a chyfryngu.

5.9 Dylai Comisiynwyr ystyried a ellir datrys pryderon drwy'r broses sicrhau ansawdd a rheoli perfformiad, cyn rhoi prosesau lleol ar waith ar gyfer uwchgyfeirio pryderon.

5.10 Trwy gydol y broses uwchgyfeirio pryderon, dylai Comisiynwyr arddel ymagwedd gefnogol. Pan fo hynny'n briodol, dylid canolbwyntio ar wella ansawdd y gwasanaeth ac atal cau gwasanaeth neu derfynu contract (datgomisiynu) lle gellid osgoi hynny.

5.11 Dylai Comisiynwyr nodi'n ysgrifenedig ar gyfer y darparwr gwasanaeth ymhle y mae'r gwasanaeth yn methu â chydymffurfio â'r cytundeb contractiol, a'r camau unioni disgwyliedig.

5.12 Yn rhan o'r broses uwchgyfeirio pryderon, dylai Comisiynwyr gynhyrchu cynllun gweithredu ar gyfer gwella, ar y cyd â'r darparwr gwasanaeth. Y darparwr gwasanaeth yw perchennog ei gynllun gweithredu ar gyfer gwella, a ddylai fanylu ar yr holl gamau gweithredu rheoleiddiol a chontractiol gofynnol, y camau unioni, y cyfrifoldebau a'r amserlenni y cytunwyd arnynt. Mae templed o gynllun gweithredu ar gyfer gwella wedi'i gynnwys ym Mhecyn Cymorth y Fframwaith Cenedlaethol.

5.13 Dylai Comisiynwyr roi cymorth ychwanegol i ddarparwyr gwasanaethau, lle bo hynny'n briodol, a chynnal mwy o weithgarwch monitro gwasanaethau yn ystod cyfnodau pan fo pryderon wedi'u huwchgyfeirio. Dylid cytuno ar natur ac amserlen y cymorth ychwanegol ag Unigolyn Cyfrifol a Rheolwr Cofrestredig y gwasanaeth. Rhaid i Gomisiynwyr gadarnhau'n ysgrifenedig y camau y byddant yn eu cymryd i hybu gwelliannau, er enghraifft, hyfforddiant a chanllawiau polisi. Dylai Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG gynorthwyo darparwyr gwasanaethau pan fo materion o natur glinigol.

5.14 Dylai Comisiynwyr nodi asiantaethau allweddol a chydweithio â nhw i reoli'r broses uwchgyfeirio pryderon. Dylai ymweliadau â'r gwasanaeth, yn ogystal ag unrhyw ymholiadau iddo, gael eu cynllunio a'u cydgysylltu, gan gynnwys pan fyddant yn ddirybudd.

5.15 Dylai Comisiynwyr sicrhau bod cyfathrebu effeithiol yn digwydd â rhanddeiliaid, gan gynnwys unigolion a'u cynrychiolwyr, yn ogystal â gweithlu'r gwasanaeth pa fo hynny'n briodol. Mae hyn yn cynnwys unigolion y caiff eu gofal ei hunanariannu neu pan fo'r gofal wedi'i drefnu gan gyrff comisiynu eraill.

5.16 Caiff Comisiynwyr roi gweithdrefnau uwchgyfeirio pryderon a gweithdrefnau diogelu ar waith ar yr un pryd. Dylai arweinwyr comisiynu a diogelu sicrhau bod dull gweithredu cydgysylltiedig ar waith yn ogystal ag eglurder o ran rolau, cyfrifoldebau a disgwyliadau pob parti.

5.17 Ni chaiff Comisiynwyr beri oedi cyn cau'r broses uwchgyfeirio pryderon, unwaith y bydd y camau unioni yn y cynllun gweithredu ar gyfer gwella wedi'u cyflawni. Dylid datrys unrhyw bryderon ychwanegol o ran ansawdd, nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer uwchgyfeirio pryderon ym mharagraff 5.2, drwy'r broses sicrhau ansawdd a rheoli perfformiad.

5.18 Nodir enghraifft o siart lif proses uwchgyfeirio pryderon ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig yn Atodiad B.

*Atal dros dro drefniadau comisiynu newydd*

5.19 Pan fo pryderon sylweddol, caiff Comisiynwyr benderfynu atal dros dro leoliadau newydd mewn gwasanaethau preswyl a gwasanaethau amhreswyl, neu atal dros dro gomisiynu pecynnau newydd o gymorth cartref. Rhaid i benderfyniad ynghylch atal dros dro drefniadau comisiynu newydd mewn gwasanaeth fod yn seiliedig ar y tebygolrwydd o niwed i bobl. Pan fo trefniadau contract ar y cyd, dylai pob parti sy’n rhan o gomisiynu’r contract fod yn rhan o benderfyniad i atal dros dro y trefniadau comisiynu newydd gyda gwasanaeth. Rhaid i Gomisiynwyr gofnodi rhesymeg glir dros eu camau gweithredu, gan gynnwys llwybr archwilio o’r dystiolaeth ar gyfer y penderfyniadau a wnaed, a’r holl gyfathrebu â rhanddeiliaid.

5.20 Gall atal dros dro drefniadau comisiynu newydd mewn gwasanaeth gofal a chymorth rheoleiddiedig gael effaith negyddol ar ei gynaliadwyedd a’i enw da. Gall penderfyniad i atal dros dro drefniadau comisiynu newydd fod yn agored i her gyfreithiol drwy, er enghraifft, Adolygiad Barnwrol.

5.21 Rhaid i Gomisiynwyr weithio gyda’i gilydd, gan gynnwys gyda’r darparwr gwasanaeth a chyda rhanddeiliaid eraill, i isgyfeirio risgiau drwy gyflawni unrhyw gamau gweithredu gofynnol a dod â’r atal dros dro i ben cyn gynted ag y bo modd.

5.22 Ni chaiff Comisiynwyr ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau gytuno i atal dros dro, yn wirfoddol, drefniadau comisiynu newydd gan gynnwys lleoliadau newydd. Caiff darparwr gwasanaeth ddewis o’i wirfodd rhoi trefniadau ar waith i atal dros dro ddarpariaeth gwasanaeth newydd neu i osod amodau ar wasanaeth neu wasanaethau a gynigir. Dylid cofnodi manylion penderfyniadau’r darparwr gwasanaeth yn y cynllun gweithredu ar gyfer gwella. Dylai’r cynllun gofnodi a yw hyn yn effeithio ar wasanaethau a brynir gan Gomisiynwyr yn ogystal ag unigolion sy’n ariannu eu gofal eu hunain.

5.23 Rhaid i gamau gan Gomisiynydd i atal dros dro drefniadau comisiynu newydd fod yn gysylltiedig ag asesiad risg trylwyr sydd wedi’i adolygu a’i gytuno â’r partneriaid comisiynu perthnasol, a’i gymeradwyo yn unol â gweithdrefnau llywodraethiant sefydliadol.

5.24 Nid yw cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella y cytunir arnynt mewn ymateb i uwchgyfeirio pryderon yn disodli’r camau gwella a gorfodi a gychwynnir gan Arolygiaeth Gofal Cymru.

5.25 I leihau dyblygu gwaith a phwysau diangen ar y darparwr gwasanaeth, mae’n hollbwysig bod pob asiantaeth sy’n rhan o’r broses yn deall ei rôl a’i chyfrifoldebau ei hun wrth ymateb i achosion o berfformiad gwael, torri amodau contract neu ddiffyg cydymffurfio rheoleiddiol.

5.26 Pan fo pryderon sylweddol am ymddygiad gweithwyr - ni waeth beth fo cyfrifoldebau'r cyflogwr ei hun yn hyn o beth - dylai Comisiynwyr ystyried a ddylid rhoi gwybod i Ofal Cymdeithasol Cymru[7] am unrhyw weithwyr neu reolwyr gofal cymdeithasol cofrestredig, rhoi gwybod i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth[8] am unrhyw nyrsys Cofrestredig, neu roi gwybod i gorff rheoleiddiol perthnasol am weithwyr proffesiynol eraill, yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru[9]. Dylai Comisiynwyr hefyd ystyried a ddylid gwneud atgyfeiriad gwahardd i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd[10].

5.27 Rhaid i Gomisiynwyr roi gwybod i'r rheoleiddwyr perthnasol ac i Gomisiynwyr eraill am bryderon ynghylch ansawdd neu berfformiad sy'n ymwneud â gweithredu gwasanaeth gofal a chymorth rheoleiddiedig, a hynny ar y cam rheoli ansawdd a'r cam uwchgyfeirio pryderon pan fo'r pryderon wedi arwain at gamau gwella gofynnol neu gynllun gweithredu ar gyfer gwella.

5.28 Mae'r weithdrefn hysbysu ofynnol wedi'i darparu ym Mhecyn Cymorth y Fframwaith Cenedlaethol. Rhaid i Gomisiynwyr lenwi'r ffurflen hysbysu berthnasol yn ddi-oed a'i lanlwytho i blatfform y Gymuned Ymarfer Comisiynu Gofal a Chymorth (y Fframwaith Cenedlaethol)[11].

---

[7] Codi pryder | Gofal Cymdeithasol Cymru

[8] Read Raising Concerns online - Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

[9] Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

[10] Cyfeiriadau gwahardd: eich canllaw o ran sut a phryd i wneud un

[11] Platfform digidol diogel ar gyfer rhannu gwybodaeth yw hwn, sydd dim ond ar gael i Fyrddau Iechyd Lleol, ymddiriedolaethau'r GIG a Chomisiynwyr awdurdodau lleol yng Nghymru.

## Pennod 6: Datgomisiynu

6.1 Yn rhan o'r cylch comisiynu, rhaid i Gomisiynwyr asesu lefel y perfformiad, y perthnasedd strategol a'r gwerth am arian a ddarperir gan ddarparwr gwasanaeth er mwyn llywio penderfyniadau ynghylch a yw'r gwasanaeth yn addas i'r diben.

6.2 At ddibenion y Cod hwn, datgomisiynu yw:

- terfynu neu beidio ag adnewyddu contract gyda gwasanaeth allanol, dod â lleoliadau neu drefniadau gofal i ben, a dod â chyllid i ben;
- cau gwasanaeth mewnol.

6.3 Caiff Comisiynwyr benderfynu datgomisiynu gwasanaeth os nad yw'n cyflawni'r canlyniadau neu'r perfformiad a ddymunir (gan gynnwys safonau ansawdd a diogelwch), a'i fod wedi methu yn gyson â mynd i'r afael â'r camau gwella gofynnol. Caiff rhesymau strategol eraill dros ddatgomisiynu gwasanaeth neu wasanaethau gynnwys amodau'r farchnad (digonolrwydd gwasanaeth a chynaliadwyedd ariannol), demograffeg (newidiadau o ran anghenion neu ofynion y boblogaeth), amgylchiadau economaidd (costau a chyllidebau) a newidiadau mewn deddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i Gomisiynwyr adolygu a newid eu darpariaeth gwasanaeth.

6.4 Rhaid i Gomisiynwyr sicrhau eu bod yn cyflawni'r dyletswyddau statudol i ddiwallu anghenion asesedig yr unigolyn a darparu parhad darpariaeth gwasanaethau drwy broses bontio a reolir yn effeithiol. Wrth wneud unrhyw benderfyniadau, rhaid ystyried hawliau, barn, dymuniadau a theimladau unigolion a'u cynrychiolwyr.

6.5 Rhaid i Gomisiynwyr sicrhau bod y prosesau datgomisiynu yn cyd-fynd â'u dyletswyddau partneriaeth gymdeithasol[12]. Dylai prosesau datgomisiynu ganolbwyntio ar gynnal sgiliau, profiad a gwybodaeth y gweithlu lleol a mynd i'r afael ag effaith economaidd-gymdeithasol ehangach y newid.

6.6 Rhaid i Gomisiynwyr hysbysu'r rheoleiddwyr perthnasol ac unrhyw Gomisiynwyr hysbys eraill pan fo contractau gyda darparwr gwasanaeth yn cael eu terfynu oherwydd pryderon am ansawdd a diogelwch.

6.7 Rhaid i Gomisiynwyr roi trefniadau ar waith i sicrhau bod cyfathrebu effeithiol yn digwydd â rhanddeiliaid, gan gynnwys darparwyr gwasanaethau yr effeithir arnynt a'u gweithluoedd, yn ogystal ag unigolion a'u cynrychiolwyr. Mae hyn yn cynnwys unigolion y caiff eu gofal ei hunanariannu neu pan fo'r gofal wedi'i drefnu gan gyrff comisiynu eraill.

6.8 O dan adran 24 o Ddeddf 2014, rhaid i awdurdodau lleol asesu anghenion gofalwr di-dâl am gymorth os yw'n ymddangos bod gan y gofalwr anghenion o'r fath neu y gallai fod ganddo anghenion o'r fath yn y dyfodol. Pan fo datgomisiynu gwasanaeth yn debygol o effeithio ar ofalwr di-dâl, er enghraifft yn sgil y cynnydd yn nifer yr oriau gofalu y bydd disgwyl iddo eu darparu neu'r

[12] Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023.

angen i deithio llawer mwy er mwyn parhau â rôl ofalu, dylid ystyried hyn. Yn rhan o asesiad o anghenion gofalwr, rhaid i'r awdurdod lleol asesu i ba raddau y mae'r gofalwr yn gallu, ac yn fodlon, darparu'r gofal hwn ac am ba hyd y bydd hynny'n parhau.

6.9 Mae enghraifft o siart lif datgomisiynu yn Atodiad C a cheir adnoddau eraill ym Mhecyn Cymorth y Fframwaith Cenedlaethol, gan gynnwys y weithdrefn hysbysu ofynnol. Rhaid i Gomisiynwyr lenwi'r ffurflen hysbysu berthnasol yn ddi-oed a'i lanlwytho i blatfform y Gymuned Ymarfer Comisiynu Gofal a Chymorth (y Fframwaith Cenedlaethol).

## Pennod 7: Cau Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig

7.1 Diben y Cod hwn yw sefydlu dulliau gweithredu cyffredin i helpu i lywio ymateb Comisiynwyr pan fyddant yn cynorthwyo i gau gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol. Nodir enghraifft o siart lif cau gwasanaeth gofal a chymorth rheoleiddiedig yn Atodiad D.

7.2 Gall y broses o gau gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig fod yn broses wirfoddol neu'n un a orfodir. Gall cau gwasanaeth ddigwydd oherwydd bod darparwr gwasanaeth wedi penderfynu cau un neu ragor o'i wasanaethau yn wirfoddol neu adael y farchnad yn gyfan gwbl. Fel arall, gall y cau ddigwydd oherwydd camau gorfodi gan Arolygiaeth Gofal Cymru neu reoleiddwyr eraill (gan gynnwys yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch), hyfywedd ariannol, neu greisis neu argyfwng sydd y tu hwnt i reolaeth y darparwr gwasanaeth.

7.3 Yr amgylchiadau sy'n arwain at gau'r gwasanaeth fydd yn pennu a yw'r broses yn un sydd wedi'i chynllunio neu'n un heb ei chynllunio. Bydd y rheswm dros gau'r gwasanaeth, yr amserlen, y brys, a'r math o wasanaeth gofal a chymorth rheoleiddiedig i gyd yn dylanwadu ar natur a chyflymder yr ymateb. Rhaid bod gan Gomisiynwyr strwythurau a threfniadau ar waith i reoli a hwyluso'r gwaith o gau gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig yn ddiogel. Mae'r Cod hwn yn disgrifio'r strwythurau a'r prosesau a ddylai fod ar waith i reoli'r gwaith o gau gwasanaeth gofal a chymorth rheoleiddiedig yn ddiogel ac yn effeithlon.

7.4 Mae Penodau 4 a 5 o'r Cod hwn yn nodi camau ataliol i'w hystyried er mwyn osgoi cau gwasanaeth yn ddiangen a heb ei gynllunio, lle bynnag y bo modd. Mae hyn yn cynnwys nodi materion yn gynnar er mwyn galluogi darparwyr gwasanaethau i wneud gwelliannau, lle bo hynny'n briodol, a llunio cymalau contractiol i sicrhau cyfnod hysbysu rhesymol pan fo cynlluniau i gau gwasanaeth.

7.5 Rhaid bod gan Gomisiynwyr drefniadau sefydledig i roi tîm allweddol o bersonél ar waith, a hynny ar fyr rybudd o bosibl, i oruchwylio'r broses o gau gwasanaeth. Ym Mhecyn Cymorth y Fframwaith Cenedlaethol, cynhwysir rolau, cyfrifoldebau ac aelodaeth awgrymedig y tîm, ac enghraifft o weithdrefnau a chynlluniau ar gyfer ymateb i gau gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig. Fodd bynnag, caiff Comisiynwyr greu eu templedi eu hunain at ddefnydd lleol.

7.6 Mae gan Gomisiynwyr gyfrifoldeb statudol i sicrhau bod anghenion asesedig unigolion am ofal a chymorth yn parhau i gael eu diwallu pan fo achosion o ddarparwyr gwasanaethau yn methu â gwneud hynny neu pan fo'u gwasanaeth yn cau. Mae hyn yn gymwys i unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau a gomisiynwyd ac i unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain. Rhaid cynnwys y gwaith o gyflawni'r cyfrifoldeb hwn yn y broses o gau gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig.

7.7 Yn achos gwasanaethau preswyl, rhaid i brosesau lleol ar gyfer cau gwasanaethau cartrefi gofal a gwasanaethau eraill sy'n seiliedig ar lety gynnwys trefniadau i sicrhau y caiff llety amgen addas ei nodi a'i drefnu ar gyfer unigolion – llety sy'n gallu diwallu eu hanghenion gofal a chymorth asesedig a'u helpu i gyflawni eu canlyniadau personol. Wrth wneud penderfyniadau, rhaid ystyried hawliau, barn, dymuniadau a theimladau unigolion a'u cynrychiolwyr. Rhaid i Gomisiynwyr roi trefniadau ar waith i sicrhau bod unigolion yn cael cymorth i symud i'w cartref newydd (gan gynnwys cludiant priodol), eu bod yn cael cwmni wrth deithio yno, a'u bod yn cael cymorth â'r broses bontio wrth symud i fyw mewn lle newydd ac ymgartrefu yno. Mae hyn yn gymwys i unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau a gomisiynir ac unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain.

7.8 Yn achos gwasanaethau amhreswyl, rhaid i brosesau lleol ar gyfer cau gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig gynnwys trefniadau i sicrhau y caiff gwasanaethau amgen eu nodi a'u trefnu ar gyfer unigolion – gwasanaethau sy'n gallu diwallu eu hanghenion gofal a chymorth asesedig a'u helpu i gyflawni eu canlyniadau personol. Wrth wneud unrhyw benderfyniadau, rhaid ystyried hawliau, barn, dymuniadau a theimladau unigolion a'u cynrychiolwyr. Rhaid i Gomisiynwyr roi trefniadau ar waith i sicrhau bod unigolion yn cael cymorth â'r broses o bontio i'w trefniadau gofal a chymorth newydd. Mae hyn yn gymwys i unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau a gomisiynwyd ac unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain.

7.9 O dan adran 24 o Ddeddf 2014, rhaid i awdurdodau lleol asesu anghenion gofalwr am gymorth os yw'n ymddangos bod gan y gofalwr anghenion o'r fath neu y gallai fod ganddo anghenion o'r fath yn y dyfodol. Pan fo cau gwasanaeth yn debygol o effeithio ar ofalwr di-dâl, er enghraifft yn sgil y cynnydd yn nifer yr oriau gofalu y bydd disgwyl iddo eu darparu neu'r angen i deithio llawer mwy er mwyn parhau â rôl ofalu, dylid ystyried hyn. Yn rhan o asesiad o anghenion gofalwr, rhaid i'r awdurdod lleol asesu i ba raddau y mae'r gofalwr yn gallu, ac yn fodlon, darparu'r gofal hwn ac am ba hyd y bydd hynny'n parhau.

7.10 Rhaid i'r prosesau lleol gynnwys trefniadau ar gyfer cyfathrebu ag unigolion yn glir, yn amserol, yn rheolaidd ac yn hygyrch, yn ogystal â chyfathrebu â'u cynrychiolwyr lle bo hynny'n briodol, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am gynnydd ac opsiynau, ymateb i gwestiynau a lleddfu pryderon.


7.11 Rhaid i'r prosesau lleol nodi rôl y darparwr gwasanaeth, yr Unigolyn Cyfrifol a Rheolwr Cofrestredig y gwasanaeth gofal a chymorth rheoleiddiedig a sut y byddant yn cymryd rhan. Mae cyfrifoldeb ar ddarparwyr gwasanaethau i gydymffurfio â gofynion rheoleiddiol yn ogystal â darparu gofal a chymorth diogel ac o ansawdd da yn ystod cyfnod y cau. Dylai darparwyr gwasanaethau gydweithredu a chydweithio â'r tîm sy'n goruchwylio'r broses o gau, a chydag Arolygiaeth Gofal Cymru i sicrhau bod y gwasanaeth gofal a chymorth rheoleiddiedig yn cael ei gau mewn modd diogel a threfnus.


7.12 Rhaid i Gomisiynwyr hysbysu'r rheoleiddwyr ac unrhyw Gomisiynwyr hysbys eraill pan gânt wybod bod gwasanaeth yn ddarostyngedig i hysbysiad cau gwirfoddol neu orfodol[13].

7.13 Mae'r weithdrefn hysbysu ofynnol wedi'i chynnwys ym Mhecyn Cymorth y Fframwaith Cenedlaethol. Rhaid i Gomisiynwyr lenwi'r ffurflen hysbysu berthnasol yn ddi-oed a'i lanlwytho i blatfform y Gymuned Ymarfer Comisiynu Gofal a Chymorth (y Fframwaith Cenedlaethol).

[13] Yn yr amgylchiadau hyn, mae cau 'gorfodol' yn cyfeirio at unrhyw orfodaeth gyfreithiol neu ariannol, gan gynnwys gorfodi rheoleiddiol fel canslo cofrestriad ac ansolfedd gwirioneddol neu bosibl. Mae'n bosibl y bydd Comisiynydd yn ymwybodol o amgylchiadau o'r fath cyn Arolygiaeth Gofal Cymru.

# Atodiad A - Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig - Siart Lif Sicrwydd Ansawdd a Rheoli Perfformiad




Cam 1: Sicrhau ansawdd – gwelliant a datblygiad parhaus
Monitro'r Contract
Sicrwydd ynghylch ansawdd a pherfformiad y gwasanaeth
Diffyg posibl o ran yr ansawdd neu'r canlyniadau gofynnol, mân risgiau i lesiant wedi'u nodi
Cyfarfod Sicrhau Ansawdd
Rhannu gwybodaeth â'r darparwr gwasanaeth ac yna cwrdd â nhw i drafod tystiolaeth o bryder / risg
Y pryderon wedi'u cadarnhau?
NAC YDYN
Dychwelyd at fonitro'r contract yn rheolaidd
YDYN Pennu camau gweithredu priodol:
Cam 1. Sicrhau Ansawdd: Pan fo cyfleoedd i wella ansawdd a / neu ganlyniadau
Cam 2. Rheoli Perfformiad: Ymateb er mwyn lliniaru risg gymedrol i bryderon diogelwch a / neu ansawdd
Cam 3. Rheoli Pryderon a Uwchgyfeiriwyd: Risgiau neu faterion yn cronni sy'n ymwneud ag un neu fwy o'r canlynol: cynaliadwyedd y gwasanaeth gofal a chymorth rheoleiddiedig, ansawdd a diogelwch y gwasanaeth gofal a chymorth rheoleiddiedig, neu ddiogelwch a llesiant unigolion.
Sicrhau cyfathrebu effeithiol â rhanddeiliaid.
Cytuno ar gamau gweithredu gydag amserlenni ac atebolrwydd
Y comisiynydd yn rhoi manylion y meysydd gwella a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt, yn ysgrifenedig, i'r darparwr
YDYN
Dychwelyd at fonitro'r contract yn rheolaidd
A yw'r gwelliannau'n foddhaol?
Adolygu a dogfennu i) lle gwnaed gwelliannau a ii) a oes angen camau pellach.
Cytuno ar y camau nesaf.
NAC YDYN – naill ai: ailadrodd cam 1, neu symud i gam 2 – rheoli perfformiad y contract

## Cam 2: Rheoli Perfformiad y Contract – angen gwella ansawdd a pherfformiad

**Mae'r risgiau / pryderon yn gymedrol, neu mae gofynion rheoleiddio, neu nid yw'r camau gwella y cytunwyd arnynt wedi datrys pryderon neu risgiau**

**Cyfarfod rheoli perfformiad y contract gyda'r darparwr gwasanaeth**

- adolygu unrhyw dystiolaeth liniarol neu dystiolaeth arall gan y darparwr gwasanaeth
- egluro a dorrwyd y contract a sut

Y pryderon wedi'u cadarnhau?

**YDYN**

**Pennu camau gweithredu priodol:**

**Cam 2. Rheoli Perfformiad:** Ymateb er mwyn lliniaru risg gymedrol i bryderon diogelwch a / neu ansawdd

**Cam 3. Rheoli Pryderon a Uwchgyfeiriwyd:** Risgiau neu faterion yn cronni sy'n ymwneud ag un neu fwy o'r canlynol: cynaliadwyedd y gwasanaeth gofal a chymorth rheoleiddiedig, ansawdd a diogelwch y gwasanaeth gofal a chymorth rheoleiddiedig, neu ddiogelwch a llesiant unigolion.

**Sicrhau cyfathrebu effeithiol gyda rhanddeiliaid.**

**NAC YDY / NAC YDYN**

**Pennu camau gweithredu priodol:**

**Cam 1 Sicrhau Ansawdd:** Os oes cyfleoedd i wella ansawdd a / neu ganlyniadau

**Dychwelyd at fonitro'r contract yn rheolaidd**

**Cytuno ar gamau gweithredu gydag amserlenni ac atebolrwydd. Y Comisiynydd yn rhoi manylion**

- y risgiau, yr achosion o dorri'r safonau gofynnol a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt
- yn ysgrifenedig, i'r darparwr

**Cynllunio a gweithredu dull cyfathrebu effeithiol gyda rhanddeiliaid**

**Y comisiynydd/wyr a'r darparwr i adolygu'r camau gweithredu**

**A yw'r contract yn cael ei gyflawni'n foddhaol? A yw'r risgiau'n cael eu lleihau neu eu lliniaru'n briodol?**

Dogfennu'r gwelliannau, y risgiau a'r camau a gymerwyd, cytuno ar y camau nesaf

**YDY / YDYN (yn rhannol / yn llawn)**

**Pennu camau gweithredu priodol:**

**Cam 1 Sicrhau Ansawdd:** Os oes cyfleoedd i wella ansawdd a / neu ganlyniadau

**Dychwelyd at fonitro'r contract yn rheolaidd**

**NAC YDY / NAC YDYN**


**Pennu camau gweithredu priodol:**

**Cam 2. Rheoli Perfformiad:** Ymateb er mwyn lliniaru risg gymedrol i ddiogelwch a / neu bryderon ansawdd

**Cam 3. Rheoli Pryderon a Uwchgyfeiriwyd:** Risgiau neu faterion yn cronni sy'n ymwneud ag un neu fwy o'r canlynol: cynaliadwyedd y gwasanaeth gofal a chymorth rheoleiddiedig, ansawdd a diogelwch y gwasanaeth gofal a chymorth rheoleiddiedig, neu ddiogelwch a llesiant unigolion.

## Atodiad B - Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig - Siart Lif Uwchgyfeirio Pryderon

### Cam 3: Rheoli Pryderon a Uwchgyfeiriwyd



## Atodiad C – Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig - Siart Lif Datgomisiynu Gwasanaeth

**Cam 4: Datgomisiynu / terfynu'r contract**

**Mae'r gwasanaeth yn anghynaliadwy**

**Mae'r perfformiad o dan y contract yn anfoddhaol**
Nid yw gweithdrefnau rheoli ansawdd na chymorth uwchgyfeirio wedi cyflawni'r canlyniadau gofynnol

**Cynnal arfarniad opsiynau**
**– arfarnu costau, risgiau a manteision:**

- Tynnu'r cymorth ychwanegol yn ôl
- Parhau â'r monitro a'r cymorth (cam 2: rheoli perfformiad y contract neu gam 3: uwchgyfeirio pryderon)
- Trefnu darpariaeth gwasanaeth amgen ar gyfer derbynwyr presennol
- Unrhyw opsiynau eraill

Paratoi achos busnes ac asesiad effaith neu ddogfennaeth arall o ran llywodraethiant penderfyniadau, yn ôl y gofyn

**Penderfynu ar gamau priodol**

**Parhau i reoli'r contract:**

**Cam 2. Rheoli Perfformiad:** Ymateb er mwyn lliniaru risg gymedrol i bryderon diogelwch a / neu ansawdd

**Cam 3. Rheoli Pryderon a Uwchgyfeiriwyd:** Risgiau neu faterion yn cronni sy'n ymwneud ag un neu fwy o'r canlynol: cynaliadwyedd y gwasanaeth gofal a chymorth rheoleiddiedig, ansawdd a diogelwch y gwasanaeth gofal a chymorth rheoleiddiedig, neu ddiogelwch a llesiant unigolion.

**Datgomisiynu**
**– terfynu'r contract**
(ar unwaith neu gyda rhybudd, yn dibynnu ar y risg ac ar ofyniad y contract)

**Dechrau prosiect datgomisiynu**

**Cadarnhau'r arweinydd a'r tîm,** sefydlu cynllun (gweler hefyd y Siart Lif ar gyfer Cau Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig, lle bo'n berthnasol)

**Darparu neu gomisiynu gwasanaeth(au) amgen** yn unol â rheoliadau'r contract (gan gynnwys tendro / trefniant yn ôl y gofyn ar sail y trefniadau presennol neu ddarpariaeth uniongyrchol); pennu'r goblygiadau TUPE (dylid gwneud pob ymdrech i gadw'r gweithlu)

**Datblygu a gweithredu cynllun cyfathrebu** (cynnwys darparwyr y presennol a'r dyfodol, pobl sy'n cael cymorth a'r gweithlu fel y bo'n briodol)


**Sefydlu gofynion eiriolaeth, cynllunio a rheoli trosglwyddo unigolion o'r gwasanaeth**


**Rhoi rhybudd** (fel y bo'n briodol) **a therfynu'r contract gyda'r darparwr presennol**

**Adolygu'r prosiect datgomisiynu,** gwersi a ddysgwyd a gofynion newid.

# Atodiad D – Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig - Siart Lif Cau Gwasanaeth


Ategir y siart lif hon gan y Cynllun Cau Gwasanaeth Rheoleiddiedig a thempledi ym Mhecyn Cymorth y Fframwaith Cenedlaethol.






Cwblhau Taflen Eiddo Unigolyn ar gyfer Adleoli
Cytuno pwy fydd yn gyfrifol am ail/ asesu anghenion a statws ariannu unigolion
Adnabod cyrff comisiynu eraill
Darparu Canllaw Cydgysylltydd Gofal
Asesu a oes modd cyflawni'r amserlen gau
NAC OES
OES
Datblygu cynllun wrth gefn.
Ystyried yng nghyfarfod y TCGRh
Uwchgyfeirio i uwch-unigolion atebol
NAC YDY
Gwirio a yw'r darparwr yn caniatáu mynediad gan weithwyr proffesiynol
Asesu capasiti BILlau / Ymdd. GIG eraill (os yw hynny'n briodol)
Cytuno pa wybodaeth 'angen gwybod' sydd i'w rhannu a gyda phwy
Trafod cymorth i alluogi ymweliadau â gwasanaethau eraill (os yw hynny'n briodol)
Trafod GDPR a phroblemau posibl



Ystyried asesiad risg ym mhob cyfarfod TCGRh
Cwblhau asesiad risg
Datblygu cynllun cyfathrebu
Canfod a yw staff y darparwr gwasanaeth yn cael cyngor cyfreithiol neu a fydd arnynt ei angen
Cyfeirio staff sy'n destun disgyblu at y cyrff rheoleiddio proffesiynol perthnasol
Os nad yw'r darparwr gwasanaeth wedi'i gwblhau, ystyried y dull gweithredu
Cefnogi adleoli staff a gwirfoddolwyr
Ystyried a yw TUPE yn berthnasol
Rhoi sicrwydd i staff y darparwr gwasanaeth ynghylch talu cyflogau
Ystyried cymorth i staff i ddelio ag ymateb sarhaus posibl a sylw anffafriol yn y cyfryngau
Arweinydd y Tîm Cau Gwasanaeth Rheoleiddiedig i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am faterion staffio


Monitro rheolaidd ar y gwasanaeth sy'n cau yn cael ei gytuno a'i gynnal
Adolygiad Datganiad o Ddiben y darparwyr gwasanaethau sy'n derbyn unigolion
Cysylltu â phartneriaid allweddol i sicrhau nad oes pryderon am y gwasanaeth newydd
Arweinwyr contractau'n sicrhau cydsyniad unigolyn / trydydd parti i daliadau ychwanegol posibl yn y gwasanaeth newydd
Dilyniant i'r digwyddiad gan ddefnyddio proses Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (os yw hynny'n briodol)
Cwblhau asesiad yr unigolyn a chadarnhau'r lleoliad
Adolygu'r pwyntiau allweddol o'r monitro – diweddaru'r asesiad risg
Yr unigolyn / teulu / cynrychiolydd yn ymweld âr gwasanaeth newydd (lle bo modd)
Ystyried yng nghyfarfod y TCGRh
Arweinwyr contractau'n gwirio lefel ffioedd cyfredol ac unrhyw daliadau ychwanegol
Arweinwyr contractau'n cael cyngor cyfreithiol ar dalu / terfynu contract
Ymchwilio i gost lleoliadau newydd posibl
Arweinwyr contractau'n cysylltu â thimau comisiynu perthnasol
Arweinwyr contractau'n asesu ar gyfer tandalu / gordalu
Arweinwyr contractau'n newid amlder y taliad i'r gwasanaeth sy'n cau
Rhoi contractau newydd a therfynu'r hen rai




**Cau'r gwasanaeth gofal a chymorth rheoleiddiedig wedi'i gwblhau'n llwyddiannus**

## Gwersi a ddysgwyd



## Geirfa

| | |
|---|---|
| Bwrdd Iechyd Lleol | Y saith Bwrdd Iechyd Lleol ledled Cymru yw:<br><br>• Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan<br>• Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr<br>• Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro<br>• Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg<br>• Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda<br>• Bwrdd Iechyd Addysgu Powys<br>• Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe<br><br>Mae Byrddau Iechyd Lleol yn gyfrifol am gynllunio a darparu gwasanaethau’r GIG yn eu hardal. Mae’r gwasanaethau iechyd hyn yn cynnwys gwasanaethau deintyddol, optegol, fferyllol ac iechyd meddwl. Mae’r Byrddau Iechyd Lleol hefyd yn gyfrifol am y canlynol:<br><br>• gwella canlyniadau iechyd corfforol ac iechyd meddwl,<br>• hybu llesiant,<br>• lleihau anghydraddoldebau iechyd ar draws eu poblogaethau,<br>• comisiynu gwasanaethau gan sefydliadau eraill i ddiwallu anghenion eu trigolion. |
| Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Mae saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ledled Cymru:<br><br>• Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a’r Fro<br>• Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg<br>• Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent<br>• Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru<br>• Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys<br>• Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg<br>• Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru |
| Canlyniadau personol | Yn achos oedolyn, ystyr hyn yw’r canlyniadau y mae’r oedolyn yn dymuno eu cyflawni yn ei fywyd o ddydd i ddydd.<br><br>Yn achos plentyn, mae’n golygu:<br><br>• y canlyniadau y mae’r plentyn yn dymuno’u cyflawni; neu |

| | |
|---|---|
| | • y canlyniadau y mae unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb rhiant yn dymuno'u cyflawni mewn perthynas â'r plentyn. |
| Comisiynwyr | At ddibenion y Cod hwn, yr ystyr yw'r asiantaethau statudol eu hunain - awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG - yn hytrach nag unigolion penodol. Mae hefyd yn cynnwys unrhyw dimau neu unedau comisiynu y mae gweithgareddau comisiynu wedi'u dirprwyo iddynt. |
| Cynrychiolydd | Unrhyw un sydd â'r awdurdod cyfreithiol, neu gydsyniad yr unigolyn, i weithredu ar ran yr unigolyn. Gall hyn gynnwys eiriolwyr a gofalwyr di-dâl. |
| Darparwr gwasanaeth | Person neu sefydliad sydd wedi'i gofrestru gan Arolygiaeth Gofal Cymru i ddarparu gwasanaeth gofal a chymorth rheoleiddiedig o dan adran 6 o Ddeddf 2016. |
| Datganiad o ddiben | Y datganiad o ddiben ar gyfer y man y darperir y gwasanaeth gofal a chymorth rheoleiddiedig ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef. |
| Deddf 2006 | *Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.* |
| Deddf 2014 | *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.* |
| Deddf 2016 | *Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.* |
| Gweithdrefnau Diogelu Cymru | Sefydlodd Deddf 2014 a'r canllawiau 'Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl' fframwaith ar gyfer diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg yng Nghymru. Bwriad Gweithdrefnau Diogelu Cymru yw safoni ymarfer ledled Cymru, a rhwng asiantaethau, wrth gymhwyso'r ddeddfwriaeth yn ymarferol. Maent yn nodi rolau a chyfrifoldebau hanfodol ar gyfer pawb sy'n gyflogedig yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol i sicrhau eu bod yn diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg o gamdriniaeth, esgeulustod ac, yn achos plant, niwed. |

| | |
|---|---|
| Gweithiwr gofal cymdeithasol cofrestredig | Person fel y'i diffinnir o dan adran 79 o Ddeddf 2016. |
| Nyrs Gofrestredig | Unrhyw nyrs a gofrestrwyd ar Ran 1 o gofrestr broffesiynol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ac sy’n dod o unrhyw un o’r pedwar maes ymarfer (cymwyseddau) cydnabyddedig: oedolion, iechyd meddwl, anabledd dysgu a phlant. Yn ogystal â’u cofrestriad cychwynnol, dylai nyrsys Cofrestredig fod wedi datblygu gwybodaeth a sgiliau sy’n eu gwneud yn gymwys i ofalu am unigolion. |
| Partneriaid comisiynu | Mae’r ystyr fel a ganlyn (fel y bo’n briodol i’r cyd-destun):<br>• Comisiynwyr sydd â chyfrifoldeb statudol ar y cyd dros ariannu neu gomisiynu gofal a chymorth i unigolyn neu unigolion, a ddarperir gan wasanaeth gofal a chymorth rheoleiddiedig penodol,<br>• Comisiynwyr sydd â chytundebau cydweithredol (gan gynnwys cyllid cyfun neu wedi’i alinio) ar waith gyda gwasanaeth gofal a chymorth rheoleiddiedig penodol neu ar ei gyfer,<br>• Comisiynwyr o fewn rhanbarth diffiniedig, er enghraifft, partneriaid Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol,<br>• Comisiynwyr mewn awdurdodau neu ranbarthau cyfagos (yng Nghymru ac yn cynnwys ffiniau â Lloegr). |
| Rheolwr Cofrestredig | Person a gofrestrwyd â Gofal Cymdeithasol Cymru ac a benodir gan yr Unigolyn Cyfrifol i reoli'r gwaith o ddarparu'r gwasanaeth o ddydd i ddydd ar gyfer pob man y darperir gwasanaethau ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef. |
| Unigolyn | Oni fydd y cyd-destun yn nodi’n wahanol, y plentyn neu’r oedolyn sy’n cael gofal a chymorth. |
| Unigolyn Cyfrifol | Person a ddynodwyd gan ddarparwr gwasanaeth yn unol ag adran 21 o Ddeddf 2016 i weithredu ar ei ran mewn perthynas â gwasanaeth neu wasanaethau cofrestredig. |
| Ymddiriedolaethau’r GIG | Mae tair ymddiriedolaeth GIG ledled Cymru:<br>• Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>• Ymddiriedolaeth GIG Felindre<br>• Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |